# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Glyn Nest Trustee Company Limited**

**Cartref Preswyl Glyn Nest**
**Stryd Ebeneser**
**Castellnewydd Emlyn**
**SA38 9BW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

**30/08/2022**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Glyn Nest Trustee Company Limited

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Glyn Nest Trustee Company Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn derbyn gwasanaeth da gan reolwr a thîm o staff ymroddgar. Mae gan yr unigolyn cyfrifol oruchwyliaeth o'r gwasanaeth.

Mae anghenion iechyd a llesiant unigol y bobl yn bwysig i'r rhai sy'n darparu'r gofal a chymorth. Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u perthnasau, a gweithiwr iechyd proffesiynol yn cadarnhau hyn. Mae angen gwaith i sicrhau bod anghenion unigol y bobl yn cael eu cofnodi'n fwy manwl a bod y bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cymryd rhan wrth asesu ac adolygu eu gofal.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn gartrefol ac yn lân. Mae mesurau atal a rheoli heintiau diogel a phriodol ar waith yn unol â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Llesiant

Mae’r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Roedd y gweithwyr gofal yn siarad yn barchus am y bobl sy'n byw yn y cartref ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r bobl, eu hanghenion, a sut mae diwallu’r anghenion hyn. Mae'r gweithwyr gofal yn rhyngweithio â’r bobl ac yn eu cynorthwyo mewn ffordd ystyriol a gofalgar. Mae mesurau rheoli heintiau priodol ar waith ac mae’r staff yn deall yn glir beth yw eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran sut i reoli ac atal heintiau. Mae'r cartref yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon drwg. Mae'r gweithwyr gofal yn cael goruchwyliaeth a hyfforddiant rheolaidd i'w cefnogi yn eu rôl. Mae mesurau recriwtio yn sicrhau bod gan y staff gofal sy'n gweithio yn y cartref y sgiliau ac ymagwedd gywir tuag at ofal. Mae'r gwasanaeth yn cysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosib.

Yn gyffredinol, adlewyrchir anghenion a dewisiadau'r bobl yn eu cofnodion gofal ac yn y gofal a ddarperir. Fodd bynnag, mae angen rhagor o fanylion ynglŷn ag unrhyw gymorth penodol y gall fod ei angen ar unigolion a sut maen nhw a/neu eu cynrychiolwyr yn rhan o'r broses o gynllunio ac adolygu gofal. Mae'r bobl yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg yn dibynnu ar eu dewis. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal ymweliadau Rheoliad 73 i sicrhau bod barn a safbwyntiau'r bobl yn cael eu cydnabod. Mae gan y bobl a'u cynrychiolwyr fynediad at wybodaeth am sut i fynegi pryder os oes angen. Dywedodd un person wrthym *“Byddwn yn siarad â’r rheolwr neu un o’r staff pe bai gen i bryder”* a dywedodd perthynas wrthym *“Rwy’n gwybod os oes gennyf i bryder, y byddai hi [y rheolwr] yn delio ag ef”.* Gall y bobl roi eitemau sy’n bwysig iddynt yn eu hystafelloedd gwely fel dodrefn, addurniadau, a ffotograffau. Mae dewis o brydau a lluniaeth gydag opsiynau amgen yn cael eu cynnig.

## Gofal a Chymorth

Darperir gofal a chymorth gan dîm o staff sydd â dealltwriaeth dda o anghenion y bobl a sut i ddarparu gofal a chymorth priodol. Siaradodd y staff i gyd yn frwdfrydig ynglŷn â gofalu am y bobl a gweithio yn y gwasanaeth. Mae lefelau staff digonol ar waith i ddiwallu anghenion y bobl ac i ganiatáu amser ar gyfer rhyngweithiadau ystyrlon. Mae'r gweithwyr gofal yn cyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â dewis y person.

Mae'r staff yn cynorthwyo'r bobl mewn ffordd broffesiynol a gofalgar. Dywedodd y bobl wrthym eu bod nhw'n cael gofal da a bod y staff yn garedig a chymwynasgar. Mae'r sylwadau yn cynnwys: "*Mae'r gofalwyr yn ardderchog, maen nhw fel ail deulu i fi*" ac "*maen nhw mor garedig*". Siaradodd perthnasau yn gadarnhaol hefyd am y gofal y mae eu hanwyliaid yn ei dderbyn gan gynnwys *"Mae'r staff yn wych ac yn ofalgar iawn, rwy'n teimlo bod fy ngŵr yn ddiogel yma. Mae'r rheolwr yn dda iawn, rwy'n gwybod os oes gennyf i bryder y byddai'n delio ag ef"* a *"maen nhw i gyd yn dda iawn, does gen i ddim cwynion o gwbl".*

Mae gan y gegin Sgôr Hylendid Bwyd o bum seren. Mae'r bwydlenni yn cynnig dewisiadau amrywiol bob dydd. Dywedodd y bobl wrthym fod dewis ar gael ar y fwydlen ac ar bob adeg gallant ofyn am bryd o fwyd sy'n wahanol os dymunant. Mae amser bwyd yn ddigwyddiadau cymdeithasol cadarnhaol a phleserus yn ôl pob golwg, lle mae'r bobl yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i fwyta eu bwyd.

Mae cynlluniau gofal yn darparu manylion am anghenion y bobl; fodd bynnag, mae angen mwy o wybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn rhoi gwell ymdeimlad o'r unigolyn a'i anghenion gofal a chymorth penodol i'r gweithwyr gofal. Yn ogystal, mae angen rhagor o waith i ddangos sut mae unigolion a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o asesu ac adolygu eu gofal, yn enwedig yn ystod y pandemig.

Mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwneud â'r bobl ac mae hyn wedi cael ei nodi yn eu cofnodion gofal. Gwnaeth gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld ganmol y gwasanaeth hefyd, a dywedodd wrthym *"mae'r cartref a'r rheolwr yn dda iawn. Mae'r staff gofal yn ymddangos yn garedig a gofalgar iawn"*. Mae mesurau priodol ar waith ar gyfer storio, rhoi a chofnodi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o arferion diogel i roi meddyginiaeth.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid i leihau'r risgiau o ran heintiau. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r rheolwr wedi gweithio gyda swyddogion iechyd yr amgylchedd a'r Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni ei rwymedigaethau ynglŷn â mesurau atal a rheoli heintiau. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gynorthwyo arferion da, ac mae'r staff gofal yn glir ynglŷn â'r rhain a'u cyfrifoldebau ynghylch amddiffyn y bobl rhag cael eu heintio.

## Yr Amgylchedd

Mae trefniadau ar waith i leihau'r risg i iechyd a diogelwch y bobl. Mae llyfr ymwelwyr yn cael ei lofnodi wrth gyrraedd a gadael. Mae gwaith profi a gwasanaethu cyfarpar diffodd tân a symud a thrin yn cael ei wneud o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae'r Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng wedi cael eu llunio ar gyfer pob unigolyn ac maent ar gael yn rhwydd mewn argyfwng. Mae'r larymau tân o fewn cyrraedd, ac ar y cyfan, mae’r bobl yn ymateb iddynt mewn modd amserol pan fyddant yn canu. Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith yn unol â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae sylweddau sy’n beryglus i iechyd yn cael eu storio’n ddiogel ac mae ardaloedd cymunol yn glir a heb beryglon. Mae gan staff domestig yr offer priodol i gyflawni eu dyletswyddau’n ddiogel. Mae gwiriadau gwaith cynnal a chadw, gwaith gwasanaethu ac archwiliadau trwyadl ar waith. Mae'r gwasanaeth yn lân a heb unrhyw aroglau drwg.

Mae cynllun y gwasanaeth yn galluogi'r bobl i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn ddiogel. Mae arwyddion dwyieithog i gynorthwyo'r bobl i ymgyfarwyddo â'r adeilad. Mae yna gyfyngwyr i'r ffenestri ar y llawr cyntaf ac mae’r allanfeydd tân wedi cael eu harwyddo'n glir ac nid oes rhwystrau iddynt. Mae cofnodion gweithwyr gofal yn cadarnhau eu bod wedi mynychu hyfforddiant Iechyd a Diogelwch, Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, Symud a Thrin a Rheoli ac Atal Heintiau. Mae'r cofnodion hyfforddi yn cadarnhau hyn.

Mae'r dodrefn a’r gosodiadau yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi cael gwedd bersonol gydag eitemau o ddodrefn, lluniau, ffotograffau ac eitemau sy'n bwysig i'r unigolyn. Er bod yr ystafelloedd ymolchi cymunol yn lân, maent yn edrych yn glinigol ac nid ydynt yn groesawgar iawn i’r bobl fwynhau bath. Trafodwyd hyn â'r rheolwr yn ystod yr arolygiad.

Mae gwaith i'r lifft yn y gwasanaeth yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd. Mae trefniadau eraill a chyfleusterau amgen wedi'u trefnu ar gyfer y cyfnodau pan na pan fydd y lifft yn gweithio. Ers hyn, mae AGC wedi derbyn hysbysiad i roi gwybod i ni fod y gwaith wedi dechrau ers yr ymweliad arolygu.

Mae'r gerddi cymunol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn cynnig mannau deniadol i'r bobl a'u hymwelwyr eistedd a chymdeithasu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae’r bobl yn cael gofal gan dîm o staff sy'n uchel eu cymhelliant ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r rheolwr yn gefnogol iawn i'r staff, ac mae hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr ganddynt. Dywedodd y staff wrthym *“Mae [y rheolwr] yn hawdd iawn mynd ati, gallwch chi fynd ati bob amser”, “da iawn”, “mae [y rheolwr] yn rhan o’r tîm”.* Dywedodd gweithwyr gofal wrthym hefyd eu bod wir yn mwynhau gweithio yng Nglyn Nest gan gynnwys, “*dyma’r cartref mwyaf hamddenol sy'n canolbwyntio ar y teulu i fi weithio ynddo” a “Rwy’n mwynhau gweithio yma yn fawr, mae’r preswylwyr yn hyfryd”.*

Mae'r rheolwr yn brofiadol ac wedi'i chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Cefnogir y rheolwr gan yr unigolyn cyfrifol a'r ymddiriedolwyr, a gall alw arnynt pryd bynnag y bo angen. Mae’r lefelau staffio wedi gwella yn fawr ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r cynnydd yn nifer y staff gan gynnwys uwch-ofalwyr ychwanegol yn galluogi'r rheolwr i ddirprwyo'n fwy effeithiol ac yn caniatáu amser i ganolbwyntio ar ei rôl a'i chyfrifoldebau rheoleiddio. Dywedodd y rheolwr wrthym *“mae hyn wedi cymryd y pwysau oddi arna i”.*

Mae'r cofnodion staff yn dangos eu bod yn cael cyfnod sefydlu, goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol. Mae'n bwysig llofnodi a dyddio cofnodion goruchwylio a darparu copi i'r gweithiwr gofal. Dywedodd un gweithiwr gofal sydd wedi dechrau gweithio yn y gwasanaeth yn ddiweddar wrthym *“Cefais i gyfnod sefydlu da, rhywfaint o hyfforddiant, shifftiau cysgodol ac amser i ddarllen polisïau”.*

Mae’r staff yn cyflawni ystod o hyfforddiant gorfodol a phenodol ac mae'r cofnodion yn cadarnhau hyn. Dywedodd y staff gofal wrthym am yr hyfforddiant y maent wedi’i fynychu ac maent yn gallu dangos dealltwriaeth dda o'u rôl wrth amddiffyn unigolion ac o weithdrefnau symud a thrin. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi staff yn eu rolau.

Roedd y cofnodion recriwtio staff a welwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth a chliriadau gofynnol gan gynnwys geirdaon a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae’r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio’r gwasanaeth. Mae hi wedi cynnal yr ymweliadau Rheoliad 73 gofynnol. Mae'r staff a'r bobl yn cadarnhau ei bod hi'n siarad â nhw pan yn y gwasanaeth, a dywedodd gweithiwr gofal wrthym *“mae hi [yr unigolyn cyfrifol] yn berson hyfryd, bob amser yn siarad â'r gofalwyr a'r preswylwyr”.* Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yng Nglyn Nest.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae system wedi'i rhoi ar waith i gofnodi'r holl roddion a roddir i'r staff a'r gwasanaeth.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/10/2022